OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 168 (Cy.28)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003

Wedi'i wneud	- -	*30 Ionawr 2003*
Yn dod i rym	- -	*31 Ionawr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 8 ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003; mae'n gymwys i Gymru yn unig ac yn dod i rym ar 31 Ionawr 2003.

Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**) yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn erthygl 1, rhodder "1 Ebrill 2003" yn lle "1 Chwefror 2003".

(3) Yn erthygl 3—

(a) ar ôl paragraff (2)(b)(xxi) ychwaneger y canlynol—

"(xxii) symudiad anifail sydd ar gyfrwng cludo sy'n mynd ar safle i ollwng anifeiliaid eraill, ar yr amod nad yw wedi ymadael â'r cyfrwng cludo tra bu ar y safle.";

(b) ym mharagraff (3)(e)(iv) rhodder y gair "diweddaraf" yn lle "cynharaf";

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" a oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999, O.S.1999/3141. Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S.2002/794).

(**2**) O.S. 2002/2304 (Cy.229), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2480 (Cy.243).

(c) yn lle paragraff (3)(ng) rhodder y paragraff canlynol—

"(ng) anifail o'i bwynt mynediad i'r Deyrnas Unedig ar ôl cael ei fewnforio o Aelod-wladwriaeth arall;".

(4) Yn lle erthygl 8 rhodder yr erthygl ganlynol—

"**Cyfleusterau glanhau a diheintio**

8. Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwynt iddo ddarparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau digonol ar gyfer unrhyw waith glanhau a diheintio sy'n ofynnol o dan y drwydded.

Trwyddedau penodol

8A.—(1) Rhaid i anifail a symudir o dan drwydded benodol—

(a) gael ei symud ar hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael i'r gyrchfan a bennir yn y drwydded, a

(b) bod y drwydded gydag ef drwy gydol y symudiad.

(2) Rhaid i bob anifail a symudir o dan awdurdod trwydded benodol gael ei gadw ar wahân, drwy gydol y symudiad, i unrhyw anifail nas symudir o dan awdurdod y drwydded honno.

(3) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw anifail a symudir o dan drwydded benodol, os myn cwnstabl neu arolygydd neu unrhyw un arall o swyddogion yr Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod lleol, ddangos y drwydded, a chaniatáu i gopi neu ddetholiad ohoni gael ei gymryd, a rhaid iddo hefyd, os gofynnir iddo wneud, roi ei enw a'i gyfeiriad.

(4) Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded benodol, yna, oni bai i'r drwydded ddarparu fel arall, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwynt iddo—

(a) sicrhau y rhoddir y drwydded iddo ef neu i'w gynrychiolydd cyn caniatáu i'r anifeiliaid gael eu dadlwytho;

(b) yn achos lladd-dy, roi copi i'r llawfeddyg milfeddygol swyddogol; ac

(c) cadw'r drwydded am chwe mis a'i dangos i arolygydd os gofynnir amdani.

Trwyddedau cyffredinol

8B. Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded gyffredinol, ac mae'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n symud yr anifeiliaid fod â dogfen symud, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwynt iddo—

(a) sicrhau y rhoddir iddo ef neu i'w gynrychiolydd y copi uchaf o'r ddogfen symud cyn caniatáu dadlwytho'r anifeiliaid;

(b) llenwi'r copi uchaf i ddangos ei fod ef wedi cael yr anifeiliaid, ei lofnodi, a'i anfon i'r awdurdod lleol yn ddi-oed; a

(c) cadw copi o'r ddogfen wedi ei llenwi am chwe mis.

Copïau o drwyddedau

8C. Pan fydd arolygydd awdurdod lleol yn dyroddi trwydded o dan erthygl 3(1)(a), rhaid iddo gadw copi o'r drwydded am chwe mis.".